**Rhif: WG49511**

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Ymgynghoriad ar ddibenion gwariant y dyfodol ar gyfer arian asedau segur yng Nghymru

24 Mai 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Saesneg / We welcome correspondence and telephone calls in English

OGL © Hawlfraint y Goron 2024
ISBN Digidol: 978-1-83625-156-9

## Trosolwg

Cynhaliodd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ymgynghoriad ar ddibenion gwariant arfaethedig ar gyfer arian asedau segur yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cymru. Roedd yn cynnig pedwar opsiwn posibl i'w hystyried: plant a phobl ifanc, yr argyfyngau hinsawdd a natur, cynhwysiant ariannol a gweithredu cymunedol. Roedd hefyd yn gyfle i awgrymu awgrymiadau eraill. Gan ei bod yn annhebygol o allu ariannu pob un o'r pedwar opsiwn, bydd yr ymgynghoriad yn helpu Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu.

## Camau gweithredu gofynnol

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Ymgynghoriad Asedau Segur
Is-adran Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: dormantassetsfunding@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfennaeth ymgynghori: https://www.llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-ddibenion-gwariant-y-dyfodol-ar-gyfer-arian-asedau-segur-yng-nghymru-html

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cynnwys | 3 |
| Cyflwyniad | 4 |
| Crynodeb gweithredol | 6 |
| Plant a phobl ifainc | 8 |
| Yr argyfyngau hinsawdd a natur | 12 |
| Cynhwysiant ariannol | 17 |
| Gweithredu cymunedol | 21 |
| Dewisiadau ac awgrymiadau at ddibenion gwariant eraill | 26 |
| Y Gymraeg | 28 |
| Materion eraill | 30 |
| Argymhellion a chamau nesaf | 31 |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Ynglŷn â'r ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar y dibenion gwariant ar gyfer arian asedau segur yng Nghymru yn y dyfodol. Mae’r Cynllun Asedau Segur (DAS) yn cefnogi cwmnïau ariannol i gyfeirio cronfeydd o asedau segur yn wirfoddol at achosion da, tra’n sicrhau y gellir aduno perchnogion â’u harian ar unrhyw adeg. Mae'n galluogi symiau mawr o arian na fyddai fel arall yn cael eu cyffwrdd mewn cyfrifon anghofiedig i gael eu gwario ar achosion cymdeithasol ac amgylcheddol.

1.2 Mae Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol (TNLCF) yn gyfrifol am ddosbarthu unrhyw enillion o’r DAS i achosion da ledled y DU tra bod Llywodraeth Cymru yn cyfarwyddo TNLCF ar sut i wario cyfran Cymru drwy gyfarwyddiadau polisi. Mae adolygiad o’r dibenion gwariant presennol ar y gweill a chynhaliodd TNLCF yr ymgynghoriad hwn ar ran Llywodraeth Cymru, a wahoddodd safbwyntiau penodol ar bedwar diben gwariant posibl ar gyfer arian DAS yng Nghymru:

- plant a phobl ifanc;
- yr argyfyngau hinsawdd a natur;
- cynhwysiant ariannol; a
- gweithredu cymunedol.

1.3 Bydd yr ymatebion a ddaw i law yn llywio penderfyniad Llywodraeth Cymru ar ba ddibenion y dylid eu rhagnodi yn y cyfarwyddiadau polisi y bydd yn eu rhoi i TNLCF yn y dyfodol. Mae rhagor o wybodaeth am y DAS a’r ymgynghoriad ar gael yma: https://www.llyw.cymru/dibenion-gwariant-y-dyfodol-ar-gyfer-arian-asedau-segur-yng-nghymru

1.4 Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 6 Rhagfyr 2023 a 28 Chwefror 2024.

1.5 Digwyddiadau ymgysylltu'r ymgynghoriad

Drwy gydol mis Ionawr a mis Chwefror 2024, cynhaliodd TNLCF gyfres o ddigwyddiadau ymgynghori rhithwir a oedd yn caniatáu i gyfranogwyr ddarganfod mwy am yr ymgynghoriad a rhannu eu barn ar ddibenion gwariant DAS yng Nghymru yn y dyfodol. Cynhaliwyd tri digwyddiad cyffredinol ochr yn ochr â phedwar a roddodd ystyriaeth benodol i bob un o’r dibenion gwariant arfaethedig yn fanylach. Cymerodd cyfanswm o 142 o gyfranogwyr ran yn y digwyddiadau rhithwir. Cipiwyd y safbwyntiau a fynegwyd yn y digwyddiadau hyn ac maent wedi’u hystyried ochr yn ochr â’r ymatebion ysgrifenedig a ddaeth i law.

1.6 Ymateb i'r ymgynghoriad

Cawsom gyfanswm o 357 o ymatebion i’r ymgynghoriad. Cyflwynwyd 321 o’r rhain drwy’r porth ar-lein a chyflwynwyd 35 arall drwy e-bost. Derbyniwyd un trwy'r post. Mae'r ymatebion a dderbyniwyd drwy'r porth ar-lein yn ddienw, er

ei bod yn ymddangos bod y mwyafrif llethol o'r rhain gan fudiadau trydydd sector.

1.7 Nid atebodd pob ymatebydd bob cwestiwn gyda llawer yn canolbwyntio eu cyfraniadau ar eu meysydd diddordeb penodol. Y cwestiynau'n ymwneud â phlant a phobl ifanc denodd y nifer fwyaf o ymatebion, llawer mwy na'r cwestiynau'n ymwneud â'r tri diben gwariant arfaethedig arall. Dilynwyd hyn wedyn gan y cwestiynau'n ymwneud â'r argyfyngau hinsawdd a natur a gweithredu cymunedol (y ddau wedi derbyn nifer tebyg o ymatebion), gyda'r cwestiynau'n ymwneud â chynhwysiant ariannol yn denu'r nifer lleiaf o ymatebion.

1.8 <u>Dadansoddi'r ymatebion</u>

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad mewn ymateb i gymysgedd o gwestiynau agored a chaeedig. Dadansoddwyd cwestiynau agored gan ddefnyddio dulliau ymchwil ansoddol a chafodd pob ateb ei godio yn erbyn themâu a oedd yn codi dro ar ôl tro yn yr ymatebion a ddarparwyd i roi darlun cyffredinol o gynnwys yr ymatebion a ddarparwyd ym mhob achos. Defnyddiwyd hwn wedyn i baratoi'r adroddiad naratif ar bob cwestiwn, a chyflwynir yr adroddiadau hyn isod.

## 2. Crynodeb gweithredol

2.1 Pan ofynnwyd iddynt restru dibenion gwariant posibl yn nhrefn blaenoriaeth (cwestiwn 9), nododd y mwyafrif llethol o ymatebwyr mai plant a phobl ifanc oedd y diben gwariant posibl mwyaf poblogaidd ar gyfer DAS yng Nghymru. Dilynwyd hyn wedyn gan weithredu cymunedol a'r argyfyngau hinsawdd a natur, gyda chynhwysiant ariannol yn denu'r gefnogaeth leiaf.

2.2 Cyfeiriwyd yn helaeth at natur drawsbynciol y pedwar diben gwariant arfaethedig gan ymatebwyr ar draws yr holl ddibenion gwariant arfaethedig a phwysleisiwyd nad ydynt yn annibynnol ar ei gilydd. Cyfeiriwyd yn aml at weithredu cymunedol fel ffordd bosibl o gyflawni yn erbyn y tri maes gwariant arfaethedig arall.

2.3 <u>Plant a phobl ifanc</u>

- Rhwystrau i weithgareddau chwarae a hamdden, anableddau dysgu, ac iechyd meddwl oedd y prif feysydd pryder a nodwyd gan ymatebwyr, a thynnwyd sylw ganddynt at y ffordd y mae pob un o'r rhain yn cysylltu â'i gilydd o ran problemau ac atebion.
- Ystyriwyd bod gweithgareddau hamdden a chwarae yn bwysig i ddatblygu sgiliau cymdeithasol, iechyd a lles corfforol a meddyliol da. Teimlai'r ymatebwyr nad oedd digon o'r gweithgareddau hyn ar gael.
- Yn ogystal ag anableddau dysgu, tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at yr anghenion sy'n gysylltiedig ag anabledd a niwroamrywiaeth ac awgrymwyd bod angen mwy o gymorth ar gyfer y grwpiau hyn.
- Roedd chwarter yr ymatebwyr yn cytuno bod iechyd meddwl yn fater pwysig sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc. Roeddent yn galw am fwy o wasanaethau cymorth therapiwtig ac yn tynnu sylw at y rôl ataliol y gallai mynediad at gyfleoedd chwarae a hamdden ei chyflawni.
- Tynnwyd sylw hefyd at dlodi, addysg, unigedd a gwledigrwydd, cyflogaeth a hyfforddiant, cymorth ychwanegol i blant a phobl ifanc yn y system ofal ac o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig fel meysydd ffocws mewn perthynas â'r diben gwariant hwn.

2.4 <u>Yr argyfyngau hinsawdd a natur</u>

- Croesawodd yr ymatebwyr y pwyslais ar yr argyfwng natur ochr yn ochr â'r argyfwng hinsawdd. Roeddent yn cydnabod bod gwarchod natur a bioamrywiaeth yn fuddiol mewn sawl ffordd a hefyd yn cynnig cyfleoedd a buddion ehangach i gymunedau.
- Mae codi ymwybyddiaeth o'r argyfyngau hinsawdd a natur a'r datrysiadau a'r newidiadau sydd eu hangen yn agwedd hollbwysig ar waith yn y maes hwn.
- Dylai gweithredu cymunedol ar yr hinsawdd gael ei wreiddio mewn unrhyw ddiben gwario sy'n gysylltiedig â'r thema hon a dylai prosiectau dilynol adlewyrchu'r hyn sydd ei angen ar y gymuned i gael yr effaith fwyaf.
- Mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i gydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y sector amgylcheddol.

2.5 Cynhwysiant ariannol

- Tynnodd ymatebwyr lawer o sylw at yr angen i gynyddu'r ddarpariaeth addysg ariannol a gwasanaethau cynghori.
- Galwodd llawer am fwy o gymorth i undebau credyd a sefydliadau ariannol datblygu cymunedol (CDFIs), yn enwedig yng ngoleuni cymorth DAS ar gyfer y sector hwn yn Lloegr.
- Mae angen gwella hygyrchedd ar draws y sector ariannol, yn enwedig ar gyfer grwpiau bregus ac ymylol.

2.6 Gweithredu cymunedol

- Roedd grymuso cymunedau drwy roi rôl iddynt mewn gwneud penderfyniadau a'u helpu i ddod o hyd i atebion i'w problemau eu hunain yn ffocws cryf yn yr ymatebion.
- Mae cydlyniant cymunedol yn flaenoriaeth i lawer ac mae rhai yn teimlo bod dod â chymunedau ynghyd yn eu gwneud yn gryfach ac yn lleihau unigedd cymdeithasol.
- Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at grwpiau y teimlant fod angen cymorth ychwanegol arnynt o fewn cymunedau, yn enwedig pobl ifanc, pobl hŷn a'r rheini o gymunedau lleiafrifoedd ethnig ledled Cymru. Roedd nifer o ymatebwyr yn dadlau bod angen cymorth ychwanegol ar geiswyr lloches a ffoaduriaid.
- Nodwyd anghenion penodol cymunedau gwledig, gan gynnwys mynediad at wasanaethau, ynysu, cysylltedd, ac anhawster i ddod o hyd i wirfoddolwyr.
- Teimlai sawl un fod angen cefnogaeth datblygu cymunedol ac ariannu pwrpasol i adeiladu cymuned.
- Ystyrir bod asedau cymunedol yn hanfodol i wydnwch cymuned ac yn ffordd o gyfrannu at well canlyniadau cymdeithasol-economaidd. Gall anghydraddoldeb mewn isadeiledd cymunedol a chyfalaf cymdeithasol lesteirio gweithredu cymunedol ac atal pobl rhag gweithredu ar y pethau sydd o bwys iddynt.
- Tynnodd llawer sylw at yr angen am ariannu cynaliadwy ar gyfer amrywiaeth eang o fudiadau a gweithgareddau sy'n cael eu harwain yn bennaf gan y trydydd sector, ymyriadau sefydledig sy'n ei chael hi'n anodd yn wyneb galw cynyddol, costau uwch a sylfaen o wirfoddolwyr sy'n lleihau. Mae'r ymatebion yn awgrymu bod ariannu refeniw yn arbennig o heriol.
- Cyfeiriwyd at hinsawdd a natur, hybu iechyd, unigedd cymdeithasol, gweithgareddau chwarae plant a chludiant cymunedol fel meysydd ffocws posibl ar gyfer gweithredu cymunedol.

## 3. Plant a phobl ifanc

| |
|---|
| **Diben gwariant presennol:** Cefnogi plant a phobl ifanc i gyrraedd eu llawn botensial trwy weithio trwy'r trydydd sector i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a dileu'r rhwystrau i ddatblygiad personol a chyflogaeth. |

3.1 **Cwestiwn 1: I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylai arian o'r Cynllun Asedau Segur yng Nghymru barhau i gael ei wario ar gefnogi plant a phobl ifanc?**

Nifer yr ymatebion: 338

| | |
|---|---:|
| Cytuno'n gryf | 190 |
| Cytuno | 83 |
| Anghytuno | 17 |
| Anghytuno'n gryf | 8 |
| Dim barn | 40 |

3.2 **Cwestiwn 2: A oes unrhyw faterion penodol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc y credwch ei bod yn arbennig o bwysig i gronfeydd asedau segur yng Nghymru fynd i'r afael â hwy**

Nifer yr ymatebion: 246

3.2.1 Roedd yr ymatebion yn amrywiol eu natur ac roedd y rhan fwyaf yn tynnu sylw at faterion lluosog yn ymwneud â phlant a phobl ifanc. Roedd y tri phrif fater a nodwyd gan ymatebwyr yn adlewyrchu'r rhai a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori: rhwystrau i weithgareddau chwarae a hamdden; anableddau dysgu; ac iechyd meddwl (yn nhrefn poblogrwydd). Tynnodd nifer sylweddol o'r ymatebwyr sylw at y ffordd nad oedd y pedwar diben gwariant arfaethedig yn annibynnol ar ei gilydd.

3.2.2 <u>Gweithgareddau chwarae a hamdden</u>
Cyfeiriwyd yn achlysurol at rwystrau i weithgareddau chwarae a hamdden ochr yn ochr â mynediad i weithgareddau allgyrsiol. Roedd rhai o'r materion mwy penodol a nodwyd gan ymatebwyr yn cynnwys gwaith chwarae mynediad agored, gweithgareddau awyr agored, chwaraeon, gwaith ieuenctid, grwpiau ieuenctid, a gweithgareddau creadigol fel celf, cerddoriaeth a llythrennedd. Pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd gweithgareddau o'r fath mewn perthynas â datblygu sgiliau cymdeithasol, eu heffaith gadarnhaol ar iechyd corfforol a meddyliol a'u gwerth wrth hyrwyddo lles cyffredinol plant a phobl ifanc.

> I blant eu hunain, chwarae yw un o agweddau pwysicaf eu bywydau. Maent yn gwerthfawrogi amser, rhyddid a lleoedd o safon i chwarae. Pan ofynnwyd iddynt beth sy'n bwysig iddynt, mae plant yn sôn yn

> gyson am chwarae a chasglu gyda’u ffrindiau […] Pan fyddant yn chwarae, mae plant yn cyfrannu at eu lles uniongyrchol ac at eu datblygiad eu hunain. (Chwarae Cymru)

3.2.3 Nodwyd fforddiadwyedd, hygyrchedd a diffyg gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol, yn enwedig mewn perthynas ag ardaloedd difreintiedig a/neu wledig – gan lawer o ymatebwyr fel rhwystrau i gael mynediad at weithgareddau hamdden a chwarae. Roedd rhai ymatebwyr yn priodoli diffyg cyfleusterau i bresenoldeb ymddygiad gwrthgymdeithasol a defnyddio cyffuriau. Soniwyd hefyd bod Covid-19, yr argyfwng costau byw a chaledi yn cael effaith ar yr hyn sydd ar gael, a dywedodd un ymatebwr “Bu gostyngiad amlwg yn y gwasanaethau a ddarperir gan ysgolion ac ALlau oherwydd cyfnodau sylweddol o galedi.”

3.2.4 Anghenion ychwanegol

Yn ogystal â chyfeirio at anghenion plant a phobl ifanc anabl, roedd ymatebwyr eraill yn awyddus i gydnabod anghenion ychwanegol fel niwroddargyfeirio, a'i wahaniaethau cyfathrebu cysylltiedig. Roedd nifer o’r ymatebion hyn hefyd yn pwysleisio’r angen i ystyried yr anghenion ychwanegol hyn sy’n aml yn gymhleth mewn perthynas â gofal plant yn ogystal â darpariaeth hamdden a chwarae:

3.2.5 Mae plant ag anghenion cymhleth yn aml dan anfantais, ac wedi bod yn fwy difreintiedig oherwydd COVID. Mae tystiolaeth gref bod plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth yn cael eu gwahaniaethu o ran y cynnig o weithgareddau hamdden a chymdeithasol. Maent yn cael eu gwahardd o glybiau prif ffrwd oherwydd natur eu hanawsterau. (Ymatebwr)

3.2.6 Gofynnodd llawer o ymatebwyr am fwy o ddarpariaeth o weithgareddau lleol hygyrch, yn ogystal â chymorth ehangach i deuluoedd plant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan anabledd ac anghenion ychwanegol. Roedd nifer fach, ond amlwg, o ymatebion yn cyfeirio'n benodol at y gwasanaethau a ddarperir gan Sparkle a Serennu. Nododd un ymatebwr y teimlad ehangach bod “teuluoedd ag anghenion ychwanegol yn ei chael hi’n anodd iawn” a bod diffyg ariannu i ddiwallu eu hanghenion cymorth:

> Nid yw plant ag anableddau yn cael eu hariannu’n ddigonol yng Nghymru. Mae'r unig gyfleusterau hamdden sydd ar gael i lawer o'r plant hyn yn cael eu darparu gan elusennau ac mae'r rhain yn cael eu cwtogi neu eu canslo'n gyfan gwbl oherwydd costau byw, costau uwch a diffyg rhoddion. (Ymatebwr)

3.2.7 Galwodd nifer o ymatebwyr am fwy o ymarferwyr hyfforddedig i gefnogi plant ag anableddau ac anghenion ychwanegol mewn ysgolion, cyfleusterau gofal plant, a lleoliadau iechyd, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau diagnostig ar gyfer cyflyrau niwroddatblygiadol. Tynnwyd sylw hefyd at angen

canfyddiedig am gymorth parhaus i bobl ifanc ag anghenion ychwanegol i ddod o hyd i waith.

3.2.8 Amlygodd rhai ymatebion grwpiau eraill yr oeddent yn teimlo bod angen cymorth ychwanegol arnynt. Roedd y rhain yn cynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig, cefndiroedd ethnig lleiafrifol a'r rhai yn y system ofal.

3.2.9 <u>Iechyd meddwl</u>

Roedd bron i chwarter yr ymatebwyr yn cytuno bod iechyd meddwl a lles yn fater penodol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc. Roedd rhai'n dadlau y dylai hwn fod yn ddiben gwario ynddo'i hun, tra bod eraill yn cyfeirio at restrau aros hir, diffyg cefnogaeth mewn ysgolion, ei pherthynas ganfyddiedig â chynnydd yn absenoldebau ysgol, a phryderon am yr argyfwng hinsawdd sy'n effeithio ar les meddyliol. Galwodd rhai am fwy o wasanaethau cymorth therapiwtig tra tynnodd eraill sylw hefyd at y manteision ataliol y gallai mynediad at gyfleoedd hamdden a chwarae eu cael:

> Mae materion iechyd meddwl ymhlith pobl ifanc wedi cynyddu'n sylweddol ac mae angen rhoi ymyriadau cynnar ar waith – mae hyn yn cynnwys gweithgareddau lles, chwaraeon, therapi a mwy. (Ymatebwr)

3.2.10 <u>Tlodi ac anfantais</u>

Cyfeiriodd tua un rhan o bump o'r ymatebwyr at dlodi ac anfantais fel mater cynyddol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc mewn sawl ffordd. Dadleuodd un ymatebwr fod trechu tlodi yn bryder mawr gan ei fod yn effeithio ar gyrhaeddiad addysgol, yn gwaethygu problemau cymdeithasol eraill ac yn effeithio'n negyddol ar iechyd.

3.2.11 Amlygwyd hefyd bwysigrwydd cynhwysiant ariannol i blant a'u teuluoedd, gydag un ymatebwr yn dadlau na allwch roi arian i gefnogi pobl ifanc a phlant heb sicrhau bod gan eu teuluoedd ddigon i fyw arno. Pwysleisiodd eraill bwysigrwydd addysg ariannol i blant a phobl ifanc yn ogystal â'u teuluoedd.

3.2.12 <u>Meysydd eraill</u>

Galwodd ymatebwyr eraill am addysg amgylcheddol, addysg diogelwch digidol a chyngor gyrfaoedd.  Soniwyd am addysg yn ei rhinwedd ei hun, ond yn aml heb unrhyw fanylion pellach. Roedd ymatebion eraill yn galw am gefnogaeth a oedd yn canolbwyntio ar iechyd (yn enwedig mynd i'r afael â gordewdra), rhyw, rhent a thai, y Gymraeg a mynd i'r afael â newyn yn ystod gwyliau ysgol.

## 3.3 **Digwyddiad ymgynghori**

Ategodd y digwyddiad ymgynghori lawer o'r pwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr i Gwestiwn 2, ond gwnaed nifer o bwyntiau allweddol ychwanegol a amlinellir isod.

3.3.1 Amlygwyd trafnidiaeth a natur wledig fel rhwystrau a oedd yn atal plant a phobl ifanc rhag manteisio ar gyfleoedd. Amlygwyd y rhai ag anfanteision lluosog ac effeithiau gwaethygu tlodi, yn ogystal ag anghenion plant sy'n profi'r system lloches.

3.3.2 Roedd y trafodaethau'n atgyfnerthu'r ffordd yr oedd y materion a archwiliwyd yn y ddogfen ymgynghori yn cydgysylltu â'i gilydd ac ni ddylid eu hystyried ar eu pen eu hunain. Er enghraifft, roedd sawl cyfranogwr yn cydnabod bod y cysylltiad rhwng cael mynediad at hamdden a chwarae yn ataliol a'u manteision i iechyd meddwl a lles. I un cyfranogwr, nid yw iechyd meddwl yn ymwneud â diagnosis meddygol yn unig, mae hefyd yn ymwneud â gallu cysylltu ag eraill yn y gymuned, a dyna pam mae clybiau ieuenctid, mannau diogel i fynd iddynt a chyfleoedd i gyfarfod mor bwysig. Tynnodd eraill sylw at y ffaith nad yw llawer o bobl ifanc yn teimlo'n hyderus gydag arian, gan nodi pwysigrwydd lles ariannol a'r cysylltiad â chynhwysiant ariannol.

3.3.3 Awgrymiadau i ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar y gymuned o ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd wedi'u cysylltu'n glir â'r diben gwariant arfaethedig sy'n ymwneud â gweithredu cymunedol. Gellid defnyddio mudiadau trydydd sector, clybiau chwaraeon a grwpiau cymunedol i gyflwyno gweithgareddau sy'n cefnogi'r thema hon. Gallai cydweithredu rhwng mudiadau a sectorau ddarparu gwasanaethau gwell, hwyluso atgyfeirio a chefnogi trosglwyddo gwybodaeth. Tynnwyd sylw at yr angen am ariannu cynaliadwy hirdymor ar gyfer gwasanaethau cymunedol presennol i blant a phobl ifanc gyda rhai yn honni bod mudiadau wedi cyrraedd ymyl y 'dibyn ariannu'. Roedd anghenion cymorth mwy cymhleth ac effaith Covid-19 a'r costau byw cynyddol wedi cynyddu'r galw ar adeg pan oedd yn fwyfwy anodd cael ariannu. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i fudiadau ganolbwyntio ar y math o waith ataliol y gellid dadlau y cawsant eu sefydlu i'w wneud. Fel y bydd yr ymatebion i'r dibenion gwariant eraill a gwmpesir gan yr ymgynghoriad hwn yn dangos, nid yw'r her ganfyddiedig hon yn gyfyngedig i fudiadau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc.

## 4. Yr argyfyngau hinsawdd a natur

| |
|---|
| **Diben gwariant presennol:** Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a hyrwyddo datblygu cynaliadwy ehangach trwy weithgareddau cymunedol â ffocws.<br><br>**Diben gwariant arfaethedig:** Mynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur drwy weithgarwch cymunedol â ffocws. |

4.1 **Cwestiwn 3: I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylid parhau i wario arian o'r Cynllun Asedau Segur yng Nghymru ar fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a'i ddefnyddio hefyd i fynd i'r afael â'r argyfwng natur?**

Nifer yr ymatebion: 323

| | |
|---|---|
| Cytuno'n gryf | 84 |
| Cytuno | 79 |
| Anghytuno | 55 |
| Anghytuno'n gryf | 42 |
| Dim barn | 63 |

4.2 **Cwestiwn 4: A oes unrhyw faterion amgylcheddol penodol eraill y credwch ei bod yn arbennig o bwysig i gronfeydd asedau segur yng Nghymru fynd i'r afael â hwy?**

Nifer yr ymatebion:176

4.2.1 Roedd yr ymatebwyr yn croesawu'n fawr y ffocws ar yr argyfwng natur o fewn y diben gwariant arfaethedig a'r gydnabyddiaeth ohono. Roedd tua chwarter yr ymatebion yn ymwneud â natur neu fioamrywiaeth mewn rhyw ffordd. O fewn y maes eang a gwmpesir gan y diben gwariant arfaethedig, codwyd nifer o faterion gan gynnwys mynediad i fannau gwyrdd, atebion seiliedig ar natur i newid yn yr hinsawdd, llygredd a rheoli tir.

4.2.2 <u>Natur a bioamrywiaeth</u>
Roedd llawer o ymatebwyr yn cydnabod y potensial ar gyfer atebion seiliedig ar natur i helpu i liniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd. Roedd cysylltiad clir rhwng natur a bioamrywiaeth ac addasu trwy atebion seiliedig ar natur, megis adfer corsydd mawn a gwlyptiroedd. O fewn hyn, teimlai nifer o ymatebwyr y dylai rheoli perygl llifogydd afonydd a môr fod yn flaenoriaeth i'r DAS yng Nghymru fynd i'r afael ag ef. Nid oedd hyn yn ymwneud ag adeiladu isadeiledd i amddiffyn rhag digwyddiadau tywydd eithafol yn unig, ond hefyd â meithrin cydnerthedd a chefnogi cymunedau i addasu i fygythiadau ac effeithiau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

4.2.3 Mynegodd ymatebwyr yr angen i warchod a chadw natur a bioamrywiaeth, yn ogystal â gwella ansawdd aer, dŵr ac afonydd. Soniodd rhai ymatebwyr am lygredd a'r effeithiau posibl ar iechyd dynol a bioamrywiaeth.

4.2.4 Gwnaeth rhai ymatebwyr y cysylltiad rhwng diogelu natur a sicrhau bod gan gymunedau fynediad i fannau gwyrdd. Cafwyd sylwadau penodol hefyd am fudd ehangach cysylltu pobl â byd natur.

4.2.5 Soniodd ychydig o atebion yn benodol am gyfleoedd sy'n gysylltiedig â chynnal a gwarchod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) - yr ardaloedd hynny o dir a dŵr sydd, yn ein barn ni, yn cynrychioli ein treftadaeth naturiol orau o ran eu fflora a ffawna. Teimlai rhai ymatebwyr eraill fod ffermwyr wedi'u heithrio o ariannu blaenorol gan ddadlau bod angen cefnogi ffermwyr i addasu i ddulliau rheoli tir cynaliadwy a thechnegau ffermio cynaliadwy.

4.2.6 Daeth dwy thema glir arall i'r amlwg ynghylch codi ymwybyddiaeth a gweithredu cymunedol ac roedd yn amlwg bod llawer o'r themâu eraill a godwyd yn cysylltu ac yn ymwneud â'r penawdau ehangach hyn mewn sawl ffordd.

4.2.7 <u>Gweithredu hinsawdd sy'n canolbwyntio ar y gymuned</u>
Yn yr un modd â dibenion gwariant arfaethedig eraill, gwnaeth y rhan fwyaf o ymatebwyr gysylltiadau â gweithredu cymunedol yn ei ystyr ehangaf fel maes ffocws pwysig ac effeithiol ar gyfer DAS yng Nghymru yn fwy cyffredinol.

4.2.8 Teimlai'r ymatebwyr ei bod yn bwysig ysgogi pobl leol i gymryd camau yn eu cymuned leol i amddiffyn natur a lliniaru newid yn yr hinsawdd. Cydnabu'r ymatebwyr yr anghenion cymdeithasol ac amgylcheddol y gellid mynd i'r afael â hwy trwy weithredu yn y gymuned ar yr hinsawdd, a phwysleisiwyd y manteision ehangach y gallai eu cynnig megis mwy o gydlyniant cymunedol. Nodwyd ganddynt fod cefnogaeth gymunedol a chefnogaeth i brosiectau yn hanfodol gan fod gweld y gwahaniaeth y maent yn ei wneud yn creu gobaith ar gyfer y dyfodol. Tynnodd rhai sylw at y rôl hanfodol i wirfoddolwyr wrth gyflawni prosiectau llwyddiannus ac awgrymwyd bod angen i'r DAS yng Nghymru eu cefnogi.

4.2.9 Mewn perthynas â manylion gweithredu ar yr hinsawdd, cyfeiriodd nifer o ymatebwyr at nifer o feysydd lle gallai gweithredu cymunedol ar yr hinsawdd wneud gwahaniaeth megis: mynd i'r afael â llygredd; gwastraff bwyd; cynlluniau lleihau, ailddefnyddio ac uwchgylchu; a chasglu sbwriel yn y gymuned. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr hefyd at dyfu bwyd atgynhyrchiol yn lleol, yn enwedig cefnogi pobl i dyfu eu bwyd eu hunain gartref neu yn y gymuned.

4.2.10 <u>Ynni adnewyddadwy</u>
Roedd llawer o ymatebwyr yn gweld angen am fuddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy a chynaliadwy. Soniodd dros hanner y rhai a aeth i'r afael â'r pwynt hwn yn benodol am yr angen am, neu gyfleoedd yn ymwneud â

pherchnogaeth gymunedol ar asedau adnewyddadwy megis solar, gwynt neu ddŵr. Roedd cysylltiad clir hefyd â mentrau cymdeithasol ac ail-fuddsoddi elw yn y gymuned leol. Roedd ymatebwyr hefyd yn cydnabod yr angen am well isadeiledd i gefnogi ynni adnewyddadwy ledled y DU.

4.2.11 <u>Effeithlonrwydd ynni</u>

Nid yw'n syndod bod llawer o ymatebwyr wedi cyfeirio at adnewyddu, uwchraddio ac inswleiddio adeiladau, gyda llawer yn lleisio pryderon ynghylch yr angen i leihau biliau ynni ar gyfer cartrefi unigol a mudiadau. Mynegodd eraill fod angen ariannu neu gyngor i helpu pobl i gael mynediad at atebion ynni cynaliadwy megis paneli solar. Roedd hyn yn cynnwys helpu pobl i gael mynediad at fesurau effeithlonrwydd ynni wedi'u hariannu ac atebion ynni cynaliadwy ar gyfer cartrefi gyda rhai'n honni nad yw'r cymorth presennol ar gael nac yn hygyrch i'r rhan fwyaf o bobl.

4.2.12 <u>Cludiant</u>

Roedd rhai ymatebwyr am weld trafnidiaeth gyhoeddus a oedd yn fforddiadwy ac wedi'i chysylltu'n well sy'n ei gwneud hi'n haws i bobl leihau eu hallyriadau drwy wella isadeiledd ar gyfer teithio llesol neu opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus/cymunedol.

4.2.13 <u>Codi ymwybyddiaeth</u>

Teimlai ymatebwyr fod angen i fwy o bobl ddeall y newidiadau sydd eu hangen a brys yr argyfyngau hinsawdd a natur. Cyfeiriwyd at godi ymwybyddiaeth drwy addysg. Roedd gan rai syniadau ynghylch defnyddio offer fel Climate Fresk, ond yn gyffredinol cyfeiriodd ymatebwyr at yr angen i wella addysg ar y mater hwn o fewn cymunedau, busnesau, mudiadau trydydd sector ac elusennau. Soniwyd yn benodol am blant a phobl ifanc mewn perthynas â bod yn ymwybodol a bod yn rhan o ddod o hyd i atebion.

4.2.14 <u>Yr economi werdd</u>

Roedd cysylltiadau clir â darparu hyfforddiant a sgiliau i bobl ifanc gael swyddi gwyrdd. Yn yr un modd, soniwyd am fuddsoddi mewn busnesau gwyrdd, cynyddu sgiliau a hyfforddiant gwyrdd, a chyfleoedd swyddi gwyrdd. Teimlai'r ymatebwyr y gallai cyfleoedd ariannu o fewn yr economi werdd hefyd arwain at gymunedau mwy gwydn a ffyniannus, drwy hybu economïau lleol, darparu swyddi i bobl ifanc ac ail-fuddsoddi elw yn y gymuned.

4.2.15 Roedd rhai ymatebwyr am weld mwy o gefnogaeth ac ariannu hirdymor i helpu mudiadau a busnesau i ddeall eu heffaith amgylcheddol, lleihau eu hallyriadau a gweithio tuag at sero net. Gofynnodd rhai am yr ariannu i ddarparu arbenigedd a allai gefnogi grwpiau cymunedol i roi'r cyngor a roddwyd ar waith. Soniwyd hefyd am alluogi cymunedau ac unigolion i fod yn arweinwyr cynaliadwy mewn cymunedau, gan gynnwys cael nodau datblygu cynaliadwy ar gyfer mudiadau trydydd sector a busnesau cymdeithasol.

4.2.16 <u>Safbwyntiau amgen</u>

Er bod yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd yn bwysig, roedd lleiafrif o ymatebwyr yn teimlo bod angen mwy o gefnogaeth ar hyn o bryd ar faterion heblaw am yr argyfyngau hinsawdd a natur. Roedd consensws cyffredinol ymhlith y lleiafrif hwn bod ariannu arall ar gael ar gyfer yr amgylchedd, neu y gallai rhai o'r dibenion gwariant eraill hefyd alluogi camau gweithredu i fynd i'r afael â'r amgylchedd a newid yn yr hinsawdd i ddigwydd. Awgrymodd eraill ei fod yn fater rhy fawr i unigolion neu hyd yn oed gymunedau fynd i'r afael ag ef, ac y byddai'r DAS yn rhy fach i gael effaith. Teimlai nifer fach mai cyfrifoldeb y busnesau mawr gyda'r allyriadau mwyaf oedd gweithredu yn hytrach na chymunedau. Teimlai eraill, yn hytrach na bod yn flaenoriaeth i'r DAS, y dylid mynd i'r afael ag argyfyngau hinsawdd a natur drwy ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru i ddiogelu'r amgylchedd, erlyn llygrwyr a gorfodi newid ymddygiad.

4.2.17 Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at drosglwyddiad teg a chyfartal i sero net a sicrhau bod unrhyw newidiadau yn ystyried y rhai sy'n fwy agored i niwed neu dan anfantais; crybwyllwyd pobl hŷn, pobl ag anableddau dysgu a chymunedau ymylol ethnig.

## 4.3 Digwyddiad ymgynghori

Ategodd y digwyddiad ymgynghori lawer o'r pwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr i Gwestiwn 4, ond gwnaed nifer o bwyntiau allweddol ychwanegol a amlinellir isod.

4.3.1 Mae angen ariannu craidd hirdymor ar y sector amgylchedd a natur i sicrhau bod ganddo'r adnoddau a'r gallu i fynd i'r afael ag argyfyngau natur a hinsawdd. Teimlai rhai fod gorddibyniaeth ar wirfoddolwyr a bod angen ariannu arbenigedd a gallu technegol. Mae'r ariannu sydd ar gael ar gyfer yr amgylchedd dan bwysau ac yn gystadleuol, ac eto mae'r argyfyngau hinsawdd a natur yn gwaethygu. Roedd y cyfranogwyr yn dadlau bod angen ariannu mwy penodol i fynd i'r afael â'r argyfwng natur a chynnig atebion mwy seiliedig ar natur. Roedd teimlad bod angen cydweithio a chydlynu rhwng y cronfeydd presennol, ac y dylai'r DAS ategu gwaith ac ariannu presennol pe bai'r pwrpas gwario hwn yn cael ei ddewis.

4.3.2 Fel oedd yn gyffredin ar draws yr holl ymatebion, tynnodd nifer sylweddol o gyfranogwyr sylw at y ffordd nad oedd y pedwar diben gwariant arfaethedig yn annibynnol ar ei gilydd. Roedd cydnabyddiaeth glir o'r gorgyffwrdd â'r blaenoriaethau arfaethedig eraill. Nid yw mynd i'r afael ag argyfyngau natur a hinsawdd yn fater ar ei ben ei hun, ac mae'n torri drwy faterion plant a phobl ifanc, cynhwysiant ariannol a chysylltu cymunedau. Nodwyd yr enghraifft o dlodi tanwydd fel mater pwysig i lawer o gymunedau dan anfantais economaidd, yn enwedig rhai gwledig, ac mae cysylltiad uniongyrchol â'r argyfwng hinsawdd. Yn yr un modd, mae prosiectau sydd o fudd i'r hinsawdd a natur yn aml yn arwain at fanteision cymunedol ehangach o ran lles cymunedol a gwydnwch cymunedol, yn enwedig ffynonellau bwyd ac ynni lleol

a sgiliau gwyrdd, arbenigedd a hyder. Mae cyd-greu ymatebion lleol i’r argyfyngau hinsawdd a natur yn annog cymunedau a mudiadau i gydweithio, adeiladu gallu cymunedol a chreu cydlyniant.

4.3.3 Roedd materion eraill a godwyd yn y digwyddiad yn cynnwys yr angen am degwch ac amrywiaeth o fewn y sectorau hinsawdd ac amgylcheddol a chydnabyddiaeth y gallai'r nifer fach o bobl a oedd yn bresennol yn y digwyddiad awgrymu dirywiad yn y diddordeb yn y mater hollbwysig hwn.

## 5. Cynhwysiant ariannol

| |
|---|
| **Diben gwariant arfaethedig:** Hyrwyddo cynhwysiant ariannol i leihau allgáu ariannol, gwella llesiant ariannol a helpu i greu cymdeithas fwy cyfartal. |

5.1 **Cwestiwn 5: A ydych yn credu y dylid defnyddio arian o’r Cynllun Asedau Segur yng Nghymru hefyd i gefnogi mesurau i hybu cynhwysiant ariannol?**

Nifer yr ymatebion: 330

| | |
|---|---|
| Cytuno'n gryf | 74 |
| Cytuno | 89 |
| Anghytuno | 47 |
| Anghytuno'n gryf | 28 |
| Dim barn | 93 |

5.2 **Cwestiwn 6: A oes unrhyw faterion penodol yn ymwneud â chynhwysiant ariannol y credwch ei bod yn arbennig o bwysig i gronfeydd asedau segur yng Nghymru fynd i’r afael â hwy?**

Nifer yr ymatebion: 106

5.2.1 Trafododd dros chwarter yr ymatebwyr yr angen am well addysg a chyngor ynghylch cynllunio ariannol, cyllidebu, a pheryglon trapiau credyd. Roedd hyn yn cynnwys pwyslais arbennig ar yr angen am well addysg i blant a phobl ifanc. Yn ogystal ag addysg, cyfeiriodd tua chwarter yr ymatebwyr at wasanaethau cyngor ar ddyledion hefyd, yn enwedig mewn perthynas â’r cynnydd yn y defnydd o fenthyciadau diwrnod cyflog credyd uchel. Soniwyd sawl gwaith hefyd am gymorth i wneud y mwyaf o incwm o fudd-daliadau lles.

5.2.2 Tynnwyd sylw at gefnogaeth benodol a hygyrch mewn sawl ymateb fel un sydd ei angen ar gyfer grwpiau agored i niwed ac y gwahaniaethir yn eu herbyn, sef: ffoaduriaid, pobl o leiafrifoedd ethnig, rhieni sengl ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal. Trafodwyd hygyrchedd gwasanaethau ar gyfer y grwpiau hyn, ac eraill, megis rhwystrau iaith a diffyg trafnidiaeth fforddiadwy a hygyrch. Nodwyd cynhwysiant digidol, yn enwedig gyda dirywiad mewn mannau bancio ffisegol a chyngor hygyrch, fel mater hygyrchedd i bobl hŷn, ond rhaid peidio â chyfyngu atebion i wella addysg ddigidol – i rai pobl, ni fydd platfformau digidol byth yn hygyrch.

5.2.3 Roedd bron i un rhan o bump o'r ymatebion, gan gynnwys y rhai gan Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo a Sefydliadau Ariannol Datblygu Cymunedol (SCDCau), wedi gwneud galwadau am fuddsoddi mewn undebau credyd a SCDCau eraill, gan gynnwys creu a defnyddio canolfannau ffisegol. Mater mawr a adroddwyd ganddynt oedd diffyg gallu ac ariannu i farchnata eu hunain i'w cymunedau. Mae angen mewnbwn ariannol hefyd i'w galluogi i

barhau i ddarparu gwasanaethau credyd a bancio fforddiadwy. Cyfeiriwyd yn gyson at Fair 4 All Finance yn Lloegr a dderbyniodd ariannu drwy asedau segur yn Lloegr; roedd teimlad bod y gwaith sy’n digwydd yn y sector hwn yng Nghymru yn llwyddiannus ac yn angenrheidiol, ond bod angen rhagor o ariannu i barhau.

5.2.4 Awgrymodd nifer o ymatebwyr fod angen sicrhau bod credyd fforddiadwy ar gael yn haws. Gan fod undebau credyd a SCDCau eisoes yn darparu'r gwasanaeth hwn, awgrymwyd bod cefnogi'r mudiadau hyn yn ffordd o wella argaeledd credyd fforddiadwy a lleihau'r defnydd o gredyd cost uchel.

5.2.5 Cawsom nifer o ymatebion yn cyfeirio at blant anabl. Mae ymatebwyr yn nodi bod straen ychwanegol yn cael ei roi ar yr elusennau hyn a theuluoedd â phlant anabl. Mae rhwystrau cynhwysiant ariannol a drafodwyd yn cynnwys costau cartref ychwanegol, a rhieni sy'n gofalu yn methu â gweithio oherwydd cyfyngiadau gofal plant statudol.

5.2.6 Soniwyd dro ar ôl tro am yr argyfwng costau byw a thlodi fel materion cyffredinol sy'n effeithio ar gynhwysiant ariannol, yn ogystal â rhwystrau trafnidiaeth sy'n cyfyngu ar fynediad pobl i waith, hyfforddiant a gwasanaethau bancio personol. Roedd galwadau’n ymwneud â’r thema hon yn gyffredinol am ariannu i dalu am hanfodion fel bwyd a banciau bwyd, ac i fynd i’r afael â thlodi tanwydd. Amlygwyd cymorth i sefydlu busnesau bach o gartref fel ateb posibl i helpu pobl allan o dlodi a dyled.

## 5.3 Ymatebion ychwanegol mewn perthynas â'r thema hon

Cawsom sawl ymateb manwl gan undebau credyd a sefydliadau ariannol nad oeddent yn dilyn fformat y cwestiynau a ofynnwyd gennym. Darparodd yr ymatebion hyn awgrymiadau manwl i raddau helaeth ynghylch sut y gellir cyfuno cynhwysiant ariannol â blaenoriaethau ariannu eraill i ddarparu rhaglenni trawsbynciol sy'n mynd i'r afael â materion lluosog.

5.3.1 Mae rhai o’r awgrymiadau a wnaed yn yr ymatebion hyn yn cynnwys y canlynol:

- cydweithredu rhwng mudiadau sy'n gweithio yn y maes cynhwysiant ariannol, gan gynnwys undebau credyd ac ysgolion, i wella gallu ariannol plant a phobl ifanc ac annog cynilion;
- gweithio gyda phobl ifanc wrth iddynt bontio i fyd oedolion i'w helpu gydag addysg ariannol, mynediad at gredyd fforddiadwy, a chymorth cynilo;
- cymorth i sefydlu cydleoli gwasanaethau gan gynnwys bancio, undebau credyd, a gwasanaethau cyngor ariannol i gadw gwasanaethau wyneb yn wyneb mewn cymunedau;
- o ran yr argyfyngau newid yn yr hinsawdd a natur, roedd awgrym i gyfuno hyn â gweithredu cymunedol, ac i weithio gyda darparwyr

gwybodaeth effeithlonrwydd ynni, undebau credyd, contractwyr a landlordiaid i gefnogi pobl i leihau cost ynni cartref;
- cymorth i undebau credyd barhau i weithio gyda grwpiau agored i niwed fel cyn-garcharorion, a menywod sy’n ffoi rhag cam-drin domestig a thrais;
- menter cynhwysiant ariannol a gweithredu cymunedol i gefnogi undebau credyd a SCDCau i gefnogi grwpiau cymunedol i ariannu eu gwaith.

5.4 **Digwyddiad ymgynghori**

Roedd y trafodaethau a gynhaliwyd yn ystod y digwyddiad ymgynghori ynghylch cynhwysiant ariannol yn adlewyrchu i raddau helaeth y themâu a rannwyd mewn ymatebion ffurfiol. Ceir teimlad cyffredinol bod yr holl syniadau a drafodir o dan gynhwysiant ariannol yn bwysig ac yn rhyng-gysylltiedig, a bod gorgyffwrdd â blaenoriaethau eraill, yn enwedig plant a phobl ifanc. Trafodwyd model cymdeithasol tlodi, ochr yn ochr â galwadau i helpu pobl i oresgyn rhwystrau cymdeithasol sy’n gysylltiedig â thlodi a dyled. Tynnwyd sylw at leisiau pobl â phrofiad byw o allgáu ariannol fel rhywbeth pwysig i fod yn rhan o gynllunio rhaglenni sydd wedi'u targedu at gynhwysiant ariannol.

5.4.1 Ystyriwyd addysg ariannol yn arbennig o bwysig i blant, pobl ifanc ac oedolion. Awgrymwyd bod angen integreiddio gwasanaethau addysg gyda gwasanaethau bancio a gwasanaethau eraill. Dylai addysg gynnwys lleihau'r risg o fenthyca gan fenthycwyr anfoesegol, llog uchel. Mae yna hefyd angen canfyddiedig i gefnogi pobl i wneud y mwyaf o'u hincwm trwy fudd-daliadau lles.

5.4.2 O ran gwasanaethau cyngor, addysg a bancio, mae angen gwella hygyrchedd. Er enghraifft, mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn wynebu rhwystrau o ran iaith – mae’r rhain a phobl eraill sy’n profi anfantais luosog yn fwy tebygol o gyflwyno eu hunain yn ddigartref, yn rhannol o ganlyniad i fethu â chael mynediad i wasanaethau. Mae angen gwella hygyrchedd o ran symud oddi wrth iaith ariannol gymhleth i iaith syml, syml, a sicrhau bod cymorth ar gael mewn sawl iaith. O fewn hyn, mae'n hanfodol sicrhau bod gan wasanaethau'r capasiti a'r gallu i gefnogi'r bobl sy'n dod atynt. Trafodwyd cynhwysiant digidol hefyd fel mater i bobl hŷn. Er bod angen gwella cynhwysiant digidol, tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod angen cynnal gwasanaethau wyneb yn wyneb.

5.4.3 Roedd galwadau am wneud gwelliannau isadeiledd ochr yn ochr â gwella hygyrchedd. Awgrymwyd system atgyfeirio, gan integreiddio gwasanaethau fel banciau bwyd a gwasanaethau iechyd meddwl gyda gwasanaethau ariannol megis gwasanaethau cynghori ac undebau credyd. Gallai hyn weithredu fel mesur ataliol, yn enwedig i helpu pobl ag anghenion lluosog a chymhleth a allai arwain at, neu ddeillio o, anawsterau ariannol. Cafwyd awgrymiadau am 'siop un stop' ar gyfer cyngor a chymorth ariannol, a gwasanaethau bancio, i helpu gydag integreiddio a hygyrchedd.

5.4.4 Cyfrannodd sawl cynrychiolydd o undebau credyd a Sefydliadau Cyllid Datblygu Cymunedol (SCDCau) at y trafodaethau. Mynegwyd eu bod eisoes yn gwneud gwaith gwych, gan gynnwys cyfrannu at weithredu cymunedol, a'u bod yn cydblethu o fewn eu cymunedau. Mae angen mewnbwn ariannol i'r sector yng Nghymru, fel y bu drwy arian asedau segur yn Lloegr. Yn benodol, mae angen ariannu i ryddhau capasiti ar gyfer marchnata eu gwasanaethau fel y gallant gyrraedd mwy o bobl (ar lafar gwlad sy'n gwneud hyn i raddau helaeth ar hyn o bryd), yn ogystal ag ariannu i barhau i ddarparu gwasanaethau credyd a bancio fforddiadwy.

## 6. Gweithredu cymunedol

| |
|---|
| **Diben arfaethedig:** Datblygu cyfalaf cymdeithasol i annog Cymru o gymunedau cydlynol lle gall pobl weithredu a gwneud y pethau sydd o bwys iddynt. |

6.1 **Cwestiwn 7: A ydych yn credu y dylid defnyddio arian o’r Cynllun Asedau Segur yng Nghymru hefyd i gefnogi mesurau i hybu gweithredu cymunedol?**

Nifer yr ymatebion: 333

| | |
|---|---|
| Cytuno'n gryf | 127 |
| Cytuno | 111 |
| Anghytuno | 27 |
| Anghytuno'n gryf | 13 |
| Dim barn | 33 |

6.2 **Cwestiwn 8: A oes unrhyw faterion penodol yn ymwneud â gweithredu cymunedol y credwch ei bod yn arbennig o bwysig i gronfeydd asedau segur yng Nghymru fynd i’r afael â hwy?**

Nifer yr ymatebion: 166

6.2.1 Tynnodd nifer sylweddol o'r ymatebwyr sylw at y ffaith nad yw'r pedwar diben gwariant arfaethedig yn annibynnol ar ei gilydd. Cyfeiriwyd at weithredu cymunedol fel ffordd y gellid cymryd camau o ran hinsawdd a natur, cynhwysiant ariannol a phlant a phobl ifanc. Manteisiodd llawer o’r ymatebion i’r cwestiwn hwn ar y cyfle i atgyfnerthu pwyntiau yr oeddent wedi’u gwneud mewn perthynas â’r dibenion gwariant eraill, ac roedd hyn yn fwyaf amlwg mewn perthynas â phlant a phobl ifanc a’r argyfyngau hinsawdd a natur.

6.2.2 Adlewyrchwyd ehangder y pwrpas gwariant posibl hwn yn natur amrywiol yr ymatebion a dderbyniwyd, ond roedd peth cyffredinedd amlwg mewn perthynas â'r meysydd allweddol a drafodir isod.

6.2.3 <u>Grymuso cymunedau</u>
Roedd yr angen canfyddiedig i rymuso cymunedau yn atseinio'n gryf gyda'r ymatebwyr, ac roedd hyn yn cyflwyno ei hun mewn sawl ffordd. Daeth rhoi llais i gymunedau wrth wneud penderfyniadau drwodd yn gryf, yn ogystal â dymuniad i gefnogi cymunedau i ddod o hyd i atebion i'w problemau eu hunain trwy ddulliau megis cydgynhyrchu. Esboniwyd y teimlad hwn gan un ymatebwr fel “grym gweithredu a arweinir gan y gymuned o’r gwaelod i fyny.” Cafwyd sawl cyfeiriad at yr angen i ymddiried mewn cymunedau, gyda rhai yn dadlau y dylai arianwyr ganiatáu i gymunedau eu hunain benderfynu sut y dylid gwario arian.  Tynnodd rhai sylw hefyd at bobl ifanc a phobl hŷn fel rhai sydd angen cymorth penodol i'w grymuso.

Mae CRT yn gweld gweithredu cymunedol fel un o brif flaenoriaethau DAS a hoffai weld mwy o gymunedau ac unigolion, yn enwedig y rhai sydd â phrofiad o anghydraddoldeb ac annhegwch, yn cymryd rhan mewn gweithredu cymunedol a datblygu polisi. (Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo)

6.2.4 Er na chyfeiriwyd ati mor eang ag ystyriaethau eraill, nododd nifer o ymatebwyr rôl gwirfoddoli wrth rymuso cymunedau, ynghyd â'r angen i ariannu mentrau gwirfoddoli. Awgrymodd un ymatebwr rwydwaith cymorth gan gymheiriaid gwirfoddoli a soniodd un arall am yr angen am fwy o gydgysylltu o ran yr adnoddau gwirfoddoli sydd ar gael. Roedd yr anhawster wrth recriwtio gwirfoddolwyr hefyd yn cael ei adlewyrchu yn yr ymatebion.

6.2.5 Cydlyniant cymunedol

Mae adeiladu cydlyniant cymunedol yn flaenoriaeth i lawer. Nodwyd bod pandemig Covid-19 a heriau costau byw diweddar wedi cael effaith negyddol, ac mae rhai yn teimlo bod dod â chymunedau at ei gilydd yn eu gwneud yn gryfach ac yn lleihau unigedd cymdeithasol. Mae hyn yn hanfodol ar gyfer yr hyn y mae un ymatebwr yn cyfeirio ato fel 'budd cymdeithasol', tra bod Busnes yn y Gymuned yn dadlau y gall dod â thrigolion, busnesau lleol ac arweinwyr ynghyd sicrhau bod y bobl iawn yn gweithio gyda'i gilydd i ysgogi newid. Mae'r angen hwn i gydweithio yn cael ei nodi gan ymatebwr arall sy'n dweud bod angen 'gwell arfer cydweithredol' rhwng mudiadau trydydd sector i redeg prosiectau sy'n cynnig 'canlyniadau gwell'. Tynnodd eraill sylw at fanteision gweithgareddau rhwng cenedlaethau fel ffordd o feithrin perthnasoedd a throsglwyddo sgiliau, a thynnodd rhai sylw at fanteision cydlynol cyfleoedd lleol i blant a theuluoedd ddod at ei gilydd fel ffordd o adeiladu rhwydweithiau cymorth anffurfiol.

6.2.6 Cymunedau teg ac amrywiol

Amlygodd nifer o ymatebwyr fod angen cymorth ychwanegol ar rai grwpiau o fewn lleoliad cymunedol, yn enwedig pobl ifanc ag anableddau dysgu a phobl ifanc yn fwy cyffredinol. Cyfeiriwyd hefyd at anghenion penodol pobl hŷn, yn enwedig gyda golwg ar gynhwysiant, a thynnodd Tîm Cymorth Ieuenctid Lleiafrifoedd Ethnig Cymru (EYST) sylw at bwysigrwydd cymorth i gymunedau lleiafrifoedd ethnig ledled Cymru. Yn ôl sawl un, mae gweithredu cymunedol yn bwysig i fynd i’r afael ag achosion sylfaenol tlodi ac anghydraddoldeb.

6.2.7 Dadleuodd nifer fach ond arwyddocaol o ymatebwyr fod angen cymorth ychwanegol yn y gymuned ar gyfer ceiswyr lloches a ffoaduriaid, gan awgrymu mai ychydig neu ddim arian o gwbl gan y llywodraeth a gaiff mudiadau trydydd sector sy'n gweithredu yn y maes hwn. Mae un yn dyfynnu effaith ganfyddiedig y Ddeddf Cenedligrwydd a Ffiniau (NBA) sy’n caniatáu ar gyfer gwasgariad ehangach o ffoaduriaid a cheiswyr lloches ledled Cymru ac yn dadlau bod hyn yn cynyddu’r galw am wasanaethau dan bwysau.

6.2.8 Tynnwyd sylw at anghenion penodol cymunedau gwledig gan nifer o ymatebwyr a amlygodd y ffordd yr oedd rhai o'r heriau a wynebwyd yn cael eu mwyhau mewn cyd-destun gwledig. Roedd hyn yn cynnwys mynediad at wasanaethau, unigedd, cysylltedd, ac anhawster wrth ddod o hyd i wirfoddolwyr. Soniodd nifer fach am yr effaith yr oedd ail gartrefi yn ei chael mewn cymunedau gwledig ar gydlyniant cymunedol a’r iaith Gymraeg.

6.2.9 Cefnogaeth datblygu cymunedol

Tynnodd nifer o ymatebwyr sylw at yr angen i ddarparu cymorth i gymunedau i'w grymuso i weithredu. Ar lefel sylfaenol, mae hyn yn ymwneud â sicrhau bod cymunedau yn gwybod sut i gael gafael ar yr arian sydd ar gael iddynt, ac i arianwyr sicrhau nad yw prosesau grant yn anodd. Mae rhai yn mynd ymhellach ac yn dadlau bod angen ariannu penodol i feithrin gallu cymunedol trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor, hyfforddiant, rhwydweithio a mapio asedau. Roedd sawl un yn dadlau bod angen cymorth o’r fath ar gymunedau llai cydnerth yn arbennig i’w galluogi i adeiladu ar eu cryfderau a’u hasedau, ac y dylai cymunedau o’r fath na fyddent fel arfer yn gwneud cais am ariannu fod yn flaenoriaeth.

6.2.10 Cyfleusterau, gwasanaethau a gweithgareddau

Roedd llawer o’r ymatebion yn amlygu angen canfyddiedig i gefnogi gwasanaethau a phrosiectau gydag arian DAS, tra bod llawer o rai eraill hefyd yn tynnu sylw at yr angen i fuddsoddi yn yr adeiladau a’r hybiau cymunedol lle mae gweithredu cymunedol yn digwydd.

6.2.11 Mae sawl un yn cyfeirio at gyfleusterau cymunedol sy'n ganolog i wead eu cymunedau lleol fel y 'lleoedd i fynd' am gefnogaeth. Mae ymatebwyr yn defnyddio termau fel canolfannau cymunedol, hybiau cymunedol a mudiadau angori i gyfeirio at gyfleusterau o'r fath. Mae rhai ymatebion yn nodi bod asedau cymunedol yn hanfodol i wydnwch cymuned ac yn ffordd o gyfrannu at well canlyniadau cymdeithasol-economaidd. Yn aml gallant fod yn ffocws ar gyfer gweithgareddau a arweinir gan drigolion, ac awgrymodd rhai fod angen model ariannu mwy cynaliadwy ar y cyfleusterau hyn.

6.2.12 Mae'r Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau yn dadlau y gall anghydraddoldeb mewn isadeiledd cymunedol a chyfalaf cymdeithasol lesteirio gweithredu cymunedol a thanseilio gweledigaeth ar gyfer cymunedau cydlynol lle gall pobl weithredu ar y pethau sy'n bwysig iddynt.

> Mae ein hymchwil yn dangos bod cymunedau sydd â llai o leoedd i gyfarfod, sy’n ymgysylltu llai a gyda chysylltedd gwaeth yn profi canlyniadau economaidd-gymdeithasol gwahanol iawn o gymharu â chymunedau sydd â mwy o’r asedau hyn. (Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau)

6.2.13 Manteisiodd llawer o ymatebwyr ar y cyfle i dynnu sylw at yr angen am ariannu cynaliadwy ar gyfer amrywiaeth eang o fudiadau a gweithgareddau. Yn gyffredinol, gellir crynhoi'r rhain fel ymyriadau sefydledig a arweinir gan y trydydd sector sy'n aml yn ei chael hi'n anodd yn wyneb galw cynyddol, costau uwch a sylfaen o wirfoddolwyr sy'n lleihau. Mae'r ymatebion yn awgrymu bod ariannu refeniw yn arbennig o heriol. Er bod natur y gweithgareddau a'r mudiadau hyn yn ddealladwy yn eang, mae yna nifer o feysydd y mae rhai ymatebion yn eu crynhoi:

- **hinsawdd a natur** – dulliau cymunedol o fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur sy'n gysylltiedig â lliniaru'r hinsawdd a chadwraeth natur, cynhyrchu ynni cynaliadwy a chodi ymwybyddiaeth;
- **hybu iechyd** – gweithgareddau sydd â ffocws ataliol ar les drwy bethau fel bwyta'n iach, ymarfer corff ac, yn arwyddocaol, gwella iechyd meddwl;
- **unigedd cymdeithasol** – yn enwedig mewn perthynas â phobl hŷn, ac, i raddau llai, pobl ifanc;
- **gweithgareddau chwarae plant** – gweithredu cymunedol sy'n cefnogi gallu plant i chwarae yn eu cymunedau trwy ddarparu gweithwyr chwarae, cynlluniau chwarae a mannau chwarae, a'r buddion lles a ddaw yn eu sgil;
- cludiant cymunedol - darparu mentrau cludiant cymunedol, y mae'r Gymdeithas Cludiant Cymunedol yn dadlau eu bod yn rhan annatod o adeiladu cyfalaf cymdeithasol.

## 6.3 Digwyddiad ymgynghori

Ategodd y digwyddiad ymgynghori lawer o'r pwyntiau a fynegwyd gan ymatebwyr i Gwestiwn 8, ond gwnaed nifer o bwyntiau allweddol ychwanegol a amlinellir isod.

6.3.1 Dylai gweithredu cymunedol fod yn ffordd o fynd i'r afael â heriau cymdeithasol er mwyn osgoi gweithio seilo a sicrhau ymagwedd gyfannol. Dylid cynnig y pŵer i gymunedau ddatblygu eu llawn botensial, ond mae angen i arianwyr ymddiried ynddynt i wneud hynny. Mae angen ariannu a chymorth hirdymor i feithrin gallu a sicrhau bod mudiadau trydydd sector yn parhau i chwarae rhan allweddol wrth gefnogi cymunedau drwy ddarparu gwasanaethau hanfodol. Nodwyd pwysigrwydd ymarferion mapio cymunedol fel ffordd o adnabod cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau, ynghyd â'r angen am gynlluniau gweithredu lleol sy'n cael eu cynhyrchu ar y cyd gyda chydweithio a dull o'r gwaelod i fyny yn greiddiol iddynt.

6.3.2 Dylai cymunedau gael eu cefnogi'n well i gaffael a rhedeg asedau cymunedol er eu budd eu hunain, a, lle bo'n briodol, sefydlu busnesau cymdeithasol. Dadleuwyd bod angen ariannu cychwynnol a chymorth penodol ar gyfer hyn.

6.2.3 Amlygodd rhai yn y digwyddiad ddibyniaeth gynyddol ganfyddiedig ar gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol a ddarperir gan y trydydd sector.

Roeddent yn dadlau, wrth i wasanaethau cyhoeddus gael eu torri’n ôl, fod mudiadau cymunedol yn camu i’r adwy i gymryd yr awenau yn aml gan gynnig cymorth hanfodol, yn enwedig ar adegau o argyfwng fel Covid-19 neu gostau byw cynyddol. Mae angen cymorth ychwanegol ar fudiadau cymunedol i allu cyflawni'r rolau hyn.

6.2.4 Cyfeiriwyd at wirfoddoli yn y drafodaeth, yn enwedig y gostyngiad canfyddiedig yn nifer y gwirfoddolwyr ers pandemig Covid-19. Er bod llawer o bobl wedi dangos awydd i wirfoddoli yn ystod yr argyfwng, aeth pobl yn ôl i'w swyddi ar ôl iddo ddod i ben. Nid yn unig y collwyd y momentwm hwn, mae llawer o'r bobl a fyddai wedi gwirfoddoli fel arall yn betrusgar i wneud hynny gan fod angen iddynt gymryd rhagofalon ychwanegol i osgoi dal Covid-19 eu hunain. Mae sut i annog a galluogi mwy o bobl i wirfoddoli yn her enbyd, yn enwedig mewn perthynas â llywodraethu sefydliadol. Mae angen pobl â sgiliau penodol i reoli asedau cymunedol a gallai archwilio cyfleoedd posibl gyda'r sector preifat, lle gellir dod o hyd i'r sgiliau hyn, fod yn ffordd o fynd i'r afael â hyn.

# 7. Dewisiadau ac awgrymiadau ar gyfer dibenion gwariant eraill

7.1 **Cwestiwn 9: Rhowch y pedwar diben gwariant arfaethedig yn nhrefn pwysigrwydd a pherthnasedd i chi**

Nifer yr ymatebion: 316

| Diben Gwariant | Cyfanswm Sgôr[1] | Safle Cyffredinol |
|---|---:|---:|
| Plant a Phobl Ifanc | 1084 | 1 |
| Gweithredu Cymunedol | 850 | 2 |
| Newid Hinsawdd/Argyfwng Natur | 731 | 3 |
| Cynhwysiant Ariannol | 656 | 4 |

[1]Cyfrifiad wedi'i bwysoli yw'r sgôr. Mae gan yr eitemau sy'n cael eu rhestru gyntaf werth uwch na'r rhai oddi tanynt, y sgôr yw'r swm o holl gyfrifiadau'r eitemau wedi'u pwysoli.

7.2 **Cwestiwn 10: Os hoffech awgrymu dibenion gwariant posibl eraill ar gyfer y Cynllun Asedau Segur yng Nghymru, amlinellwch nhw yma yn unol â'r meini prawf a nodir ym mharagraff 7.3**

Nifer yr ymatebion: 117

7.2.1 Y meini prawf y gofynnwyd i awgrymiadau eraill eu bodloni yw:

- yn seiliedig ar dystiolaeth;
- yn gallu mesur effaith;
- yn gallu gwrthsefyll llifoedd ariannu ansicr;
- yn ychwanegol at arian y llywodraeth; a
- yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r llywodraeth.

7.2.2 Mae llawer o ymatebion i'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r pedair blaenoriaeth wariant a awgrymwyd, ac maent naill ai'n ailadrodd eu cefnogaeth i rai blaenoriaethau, neu'n amlygu bod y blaenoriaethau'n rhyng-gysylltiedig ac na ddylid eu trin fel materion unigol.

7.2.3 Cyfeiriwyd at blant a phobl ifanc mewn dros chwarter yr ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd y pynciau o fewn hyn yn amrywio ond yn cynnwys cymorth iechyd meddwl, gweithgareddau awyr agored, a gwasanaethau chwarae plant a grwpiau ieuenctid. Yn benodol, mae tua un rhan o bump o'r ymatebion cyffredinol yn galw am fwy o gymorth i blant a phobl ifanc ag anableddau. Mae'r blaenoriaethau a grybwyllwyd yn cynnwys: gwasanaethau gofal plant a seibiant arbenigol, cyfleusterau sy'n annog datblygiad personol a chynhwysiant cymdeithasol, a chymorth cyffredinol i blant a'u teuluoedd. Sonnir yn benodol am elusen Sparkle, sy'n darparu cymorth cofleidiol,

cyfannol i blant anabl a’u teuluoedd ledled Gwent, a’r brwydrau ariannol y mae mudiadau fel hwy eu hunain yn eu hwynebu. Mae sawl ymateb yn sôn am anghenion penodol plant niwroddargyfeiriol a bylchau canfyddiedig yn y cymorth ar hyn o bryd.

7.2.4 Thema gyffredin arall oedd gweithredu cymunedol, a sut y gall ariannu yn y maes hwn fod o fudd i ddibenion gwario eraill hefyd. Er enghraifft, awgrymwyd ariannu ar gyfer hybiau cymunedol fel cam gweithredu cymunedol a allai greu mannau i blant a phobl ifanc chwarae a chymdeithasu, yn ogystal â gweithredu fel canolbwynt ar gyfer y gymuned ehangach. Roedd awgrymiadau eraill yn hyn o beth yn cynnwys hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, trafnidiaeth gymunedol a chynlluniau ynni cymunedol a allai fod o fudd i weithredu cymunedol a newid yn yr hinsawdd. Amlygwyd sawl gwaith y bydd gweithredu cymunedol yn amrywio o gymuned i gymuned ac felly ni ddylai'r ariannu fod yn rhy ragnodol.

7.2.5 Mae pynciau eraill y cyffyrddwyd â hwy yn cynnwys iechyd meddwl, newid hinsawdd a'r gorgyffwrdd â blaenoriaethau eraill, cefnogaeth i'r trydydd sector (yn bennaf ar gyfer costau rhedeg craidd), a pherchnogaeth gyhoeddus o dir ac asedau.

7.3 **Digwyddiad ymgynghori**

Roedd rhyng-gysylltedd pob un o’r pedwar diben gwariant yn amlwg iawn yn y digwyddiad, a’r angen i ystyried sut y gallai ariannu fod o fudd i’r cysylltiadau hyn wrth symud ymlaen. O fewn hyn, mae angen deall y bydd anghenion pob cymuned yn wahanol, a chymunedau fydd yn y sefyllfa orau i wybod beth yw eu hanghenion ac i benderfynu sut i wario arian.

7.3.1 Nodwyd trafnidiaeth fel modd o wella cynhwysiant ariannol, gweithredu cymunedol a helpu plant a phobl ifanc. Mae angen i gludiant fod yn hygyrch, yn yr ystyr ei fod ar gael ac yn fforddiadwy i bawb.

7.3.2 Codwyd materion hygyrchedd digidol hefyd, a'r angen i wella cynhwysiant digidol ar gyfer mynediad i wasanaethau. Roedd galwadau am ariannu i gefnogi datblygiad gwefannau mudiadau trydydd sector, gan fod hwn yn faes y mae mudiadau'n ei chael hi'n anodd rhoi adnoddau iddo.

## 8. Y Gymraeg

8.1 **Cwestiwn 11: Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol dibenion gwario arian asedau segur ar y Gymraeg? Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

- **A ydych yn credu bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?**
- **A ydych yn credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?**

Nifer yr ymatebion: 182

8.1.2 Nid oedd gan nifer fawr o ymatebwyr farn neu nid oeddent yn meddwl y byddai'r DAS yn cael effaith ar y Gymraeg.

8.1.3 O'r rhai a ymatebodd, mynegodd y rhan fwyaf y farn pe bai dibenion gwariant DAS yn blaenoriaethu ariannu prosiectau dwyieithog yna byddai hyn o fudd i'r Gymraeg. Roedd cydnabyddiaeth hefyd y byddai Safonau Iaith Gymraeg Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ei hun yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

8.1.4 Teimlai llawer y gallai'r DAS fod yn gyfle i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg drwy ariannu prosiectau cymunedol. Cyfeiriodd yr ymatebwyr at hybu economïau lleol, cydlyniant a chysylltiadau cymunedol, cefnogi cymunedau gwledig a darparu cyfleoedd gwaith i bobl ifanc fel ffyrdd y gallai prosiectau cymunedol gael effaith.

8.1.5 Teimlai rhai eraill hefyd y byddai ariannu penodol i gefnogi a helpu i hyrwyddo'r Gymraeg yn fuddiol. Roedd enghreifftiau'n cynnwys ariannu costau cyfieithu, gwersi a chyrsiau Cymraeg am ddim i rieni, prosiectau sy'n gweithio'n benodol i ddysgu Cymraeg i ffoaduriaid a cheiswyr lloches a chefnogi mudiadau i gyflwyno'r safon ofynnol o ddwyieithrwydd.

8.1.6 Mynegodd nifer fawr o ymatebwyr y dylid defnyddio'r DAS ar gyfer blaenoriaethau eraill megis yr amgylchedd, tlodi neu bobl ifanc ac y byddai hyn yn fwy dylanwadol na hyrwyddo'r Gymraeg. Roedd rhai o'r ymatebion yn nodi cydnabyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg ond yn nodi bod blaenoriaethau eraill yn bwysicach i'r DAS. Disgrifiodd eraill y Gymraeg fel rhywbeth braf i'w chael, ond traul na allwn ei fforddio ar hyn o bryd. Mynegodd nifer fach o ymatebwyr fod digon o arian eisoes ar gael ar gyfer y Gymraeg. Mynegodd sawl un arall y syniad y gallai blaenoriaethu'r Gymraeg roi rhai cymunedau dan anfantais, yn enwedig ardaloedd difreintiedig heb lawer o siaradwyr Cymraeg, neu bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf.

8.2 **Cwestiwn 12: Yn eich barn chi, a ellid llunio dibenion gwario arian asedau segur er mwyn:**

- **cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu**
- **liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

Nifer yr ymatebion: 138

8.2.1 Nid oedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr farn neu nid oeddent yn meddwl y gallai'r dibenion gwariant ar asedau segur gael eu newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg, neu i liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

8.2.2 Eto, mynegodd nifer o ymatebwyr fod ariannu digonol ar gyfer y Gymraeg ac y dylai'r DAS flaenoriaethu materion pwysig eraill. Roedd rhai'n dadlau na ddylai'r dibenion gwariant arfaethedig ffafrio'r Gymraeg ar draul gwasanaethau hanfodol.

8.2.3 Teimlai eraill y gellid defnyddio'r dibenion gwariant i sicrhau bod meysydd lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n bennaf yn cael eu hamddiffyn a'u hannog. Awgrymodd rhai y dylai fod yn ofynnol i brosiectau ddefnyddio cyfran o'r arian ar gyfer hyrwyddo a bod o fudd i'r Gymraeg, neu o leiaf sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal.

8.2.4 Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid defnyddio'r ariannu i dalu costau fel hyfforddiant iaith Gymraeg i staff, ariannu costau cyfieithu a chostau eraill sy'n gysylltiedig â hybu a defnyddio'r Gymraeg.

8.2.5 Roedd eraill am weld y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, ond nid y Gymraeg yn cael ei thrin yn ffafriol. Roedd hyn yn gysylltiedig â'r syniad bod y dibenion gwariant yn effeithio'n gyfartal ar siaradwyr Cymraeg a Saesneg. Teimlwyd, os oes angen prosiectau i gyflwyno'n ddwyieithog, y byddai hynny'n cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg heb roi neb dan anfantais.

## 9. Materion eraill

9.1 **Cwestiwn 13: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar ein cynigion neu unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt?**

Nifer yr ymatebion: 73

9.1.1 Unwaith eto, manteisiodd sawl ymatebwr ar y cyfle i ddefnyddio'r cwestiwn hwn i ddatgan eu hoff ddiben ar gyfer arian DAS, gan gyfeirio at blant a phobl ifanc, argyfyngau hinsawdd a natur, cynhwysiant ariannol a gweithredu cymunedol. Manteisiodd llawer ar y cyfle eto i dynnu sylw at y cysylltedd ar draws y pedwar diben gwariant arfaethedig:

> Mae'n allweddol bod cefnogaeth i gymunedau, pobl ifanc, yr argyfwng hinsawdd, cynhwysiant ariannol, yr economi, tai a diwylliant yn cael ei ddarparu ar y cyd gan gofio hefyd fod y gwahanol elfennau yn cyd-fynd ac yn dylanwadu ar ei gilydd. (Ymatebwr)

9.1.2 Cyfeiriwyd at weithredu cymunedol fel ffordd o gyflawni yn erbyn y tri diben gwariant arall gyda manteision penodol i blant a phobl ifanc, yn enwedig iechyd meddwl a lles.

9.1.3 Cyfeiriwyd hefyd at Hygyrchedd a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI). Dadleuodd y Gymdeithas Cludiant Cymunedol y dylid ystyried trafnidiaeth ar draws yr holl ddibenion gwariant arfaethedig er mwyn sicrhau bod cynlluniau a ariennir yn hygyrch i bawb.

9.1.4 Amlygwyd pwysigrwydd gwrando ar gymunedau am yr hyn y maent ei eisiau a'i angen, gyda phwyslais ar sut y gallai hyn helpu i sicrhau bod DAS yng Nghymru yn cael mwy o effaith. Awgrymodd rhai y gallai rôl Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol fel dosbarthwr DAS ei gwneud yn fwy brawychus i brosiectau cymunedol llai ymgeisio unwaith y datblygir rhaglenni i gyflawni yn erbyn y dibenion gwariant a ddewiswyd.

9.1.5 Nododd ymatebwyr y dylid dosbarthu arian DAS ar sail tystiolaeth o effeithiolrwydd, gydag effaith fesuradwy a phrosesau monitro a gwerthuso tryloyw yn eu lle.

9.1.6 Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at fanteision canfyddiedig defnyddio cronfeydd DAS i ariannu gwasanaethau sefydledig yn graidd:

> Mae angen ariannu craidd ar frys. Mae gormod o bwyslais ar ariannu prosiectau sy'n gorfodi mudiadau i ailddyfeisio'r olwyn. (Ymatebwr)
>
> Mae hefyd yn hanfodol cydnabod a chynnal prosiectau presennol sy'n cyflawni camau gweithredu cadarnhaol yn hytrach nag ariannu mentrau newydd yn unig. (Ymatebwr)

9.1.7 Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at yr angen am arian DAS i gefnogi ariannu cyfalaf a refeniw, a dadleuodd rhai y dylid annog ymgeiswyr i raglenni dilynol i gydweithio.

## 10. Argymhellion a chamau nesaf

10.1 Diben yr ymgynghoriad hwn oedd hysbysu penderfyniad Llywodraeth Cymru ar gyfeiriadau polisi’r dyfodol at ddibenion gwario ar arian asedau segur yng Nghymru.

10.2 Er mwyn datblygu argymhellion, buom yn dadansoddi’r ymatebion i’r ymgynghoriad ac yn edrych ar y cyd-destun a ddarperir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (2015), y Rhaglen Lywodraethu, taflwybr tebygol ariannu'r Cynllun Asedau Segur a'r amgylchedd polisi a gweithredu ehangach.

10.3 Cytunwyd y dylai ffocws cyfeiriadau polisi yn y dyfodol fod ar blant a phobl ifanc. Y diben gwariant hwn oedd â’r gefnogaeth fwyaf ymhlith y bobl a ymatebodd i’r ymgynghoriad.

10.4 Fel y nodwyd gan lawer o’r ymatebwyr, nid yw’r diben gwariant hwn yn cau allan y tri arall yr ymgynghorwyd arnynt, ond mae’n rhoi cyfle i’w cyfuno, gan fod llawer o’r materion hyn yn drawsbynciol.

10.5 Cynigiwn felly argymell cyhoeddi cyfarwyddiadau polisi newydd i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol gan nodi bod yn rhaid iddynt ddyrannu ariannu asedau segur yng Nghymru yn unol â’r themâu a ganlyn:

Cefnogi plant a phobl ifanc i gyrraedd eu llawn botensial drwy:

- eu galluogi i weithredu ar yr argyfyngau hinsawdd a natur;
- eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithredu cymunedol;
- rhoi’r wybodaeth, sgiliau a hyder iddynt reoli eu harian yn dda drwy gydol eu bywydau.

10.6 <u>Camau nesaf</u>
Bydd Gweinidogion Cymru nawr yn ystyried yr argymhelliad hwn.